

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Papur ymchwil

Araith y Frenhines 2014

Mehefin 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/1445
Rhif dogfen:14/027

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Papur ymchwil

Araith y Frenhines 2014

Mehefin 2014

Alys Thomas a Gareth England

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb byr o'r holl Filiau a Biliau drafft sydd wedi'u cynnwys yn Araith y Frenhines 2014, ynghyd â manylion y Biliau a gariwyd drosodd o'r Sesiwn flaenorol, gyda phwyslais arbennig ar y cynigion hynny sy'n effeithio ar Gymru mewn meysydd a ddatganolwyd.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Crynodeb

Traddodwyd Araith y Frenhines 2014 gerbron Senedd y DU ar 4 Mehefin 2014. Roedd yn cynnwys manylion bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno unarddeg Bil a thri Bil drafft yn ystod Sesiwn Seneddol 2014-15.

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb byr o'r holl Filiau a Biliau drafft sydd wedi'u cynnwys yn Araith y Frenhines 2014, ynghyd â manylion y Biliau a gariwyd drosodd o'r Sesiwn flaenorol, gyda phwyslais arbennig ar y cynigion hynny sy'n effeithio ar Gymru mewn meysydd a ddatganolwyd.

Paratowyd y papur hwn i Aelodau'r Cynulliad cyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus David Jones AS, ymddangos yn y cyfarfod llawn ar 11 Mehefin 2014.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Biliau a Biliau drafft i'w cyflwyno yn Sesiwn 2014-15	2
2.1.	Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth	2
2.2.	Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	3
2.3.	Bil Seilwaith	4
2.4.	Bil Treth Pensiynau	6
2.5.	Bil Pensiynau Preifat	6
2.6.	Bil Taliadau Gofal Plant	7
2.7.	Bil Caethwasiaeth Fodern	9
2.8.	Bil Gweithredu Cymdeithasol, Cyfrifoldeb a Dewrder	10
2.9.	Bil Cwynion am Wasanaethau	11
2.10.	Bil Troseddau Difrifol	11
2.11.	Bil Galw Aelodau Seneddol yn Ôl	12
3.	Biliau a gariwyd drosodd o Sesiwn 2013-14	13
3.1.	Bil Cymru	13
3.2.	Bil Hawliau Defnyddwyr	13
3.3.	Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd	13
3.4.	Bil Dadreoleiddio	14
3.5.	Bil Cyllid (Rhif 2)	14
3.6.	Bil Rheilffordd Cyflym (Llundain - Gorllewin Canolbarth Lloegr)	14
4.	Biliau Drafft	15
4.1.	Bil Llywodraethu Parciau Cenedlaethol (Lloegr) a'r Broads Drafft	15
4.2.	Bil Deddf Terfysg (Difrod) Drafft	15
4.3.	Bil Amddiffyn Elusennau Drafft	16

Araith y Frenhines 2014

1. Cyflwyniad

Traddodwyd Araith y Frenhines 2014 gerbron Senedd y DU ar 4 Mehefin 2014. Mae'r Araith yn amlinellu bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno unarddeg Bil a thri Bil drafft arall yn ystod Sesiwn Seneddol 2014-15. Mae'r Biliau hyn yn ychwanegol at y chwe Bil a oedd yn destun cynigion cario drosodd yn y Sesiwn 2013-14 flaenorol. Sesiwn 2014-15 yw sesiwn olaf y Senedd gyfredol, cyn Etholiad Cyffredinol y DU ar 7 Mai 2015.

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb byr o'r holl Filiau a Biliau drafft sydd wedi'u cynnwys yn Araith y Frenhines 2014, ynghyd â manylion y Biliau a gariwyd drosodd o'r Sesiwn flaenorol, gyda phwyslais arbennig ar y cynigion hynny sy'n effeithio ar Gymru mewn meysydd a ddatganolwyd.

2. Biliau i'w cyflwyno yn Sesiwn 2014-15

Mae'r Biliau wedi'u crynhoi yn eu tro isod:

2.1. *Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth*

Mae'r Bil yn cynnwys amrywiaeth o fesurau sy'n ymwneud â darparu cymorth i fusnesau bach, cyfraith cyflogaeth, cymorth i landlordiaid tafarnau, rheoliadau gofal plant a thaliadau diswyddo i weithwyr y sector cyhoeddus.

Yn arbennig, mae'r Bil yn ceisio cyflwyno darpariaeth a fydd yn:

- Ei gwneud hi'n haws i fusnesau bach gael gafael ar gyllid; gwella arferion talu rhwng busnesau bach a'u cwsmeriaid; sicrhau bod cwmnïau bach yn gallu cael mynediad tecach at y £230 biliwn sy'n cael ei wario bob blwyddyn ar ffurf contractau caffael cyhoeddus; a chynyddu'r cyllid a'r ffynonellau cyllid sydd ar gael i fusnesau sydd am fuddsoddi;
- Sicrhau bod y fiwrocratiaeth sy'n effeithio ar fusnesau bach yn cael ei hadolygu'n aml i sicrhau bod rheoliadau naill ai'n cael eu dileu neu'n parhau i fod yn effeithiol, a gosod y gofyniad hwnnw mewn cyfraith;
- Sicrhau mwy o dryloywder o ran pwy sy'n berchen ac yn rheoli cwmnïau y DU gyda chofrestr o berchnogaeth lesiannol, cryfhau rheolau ar anghymhwysio cyfarwyddwyr a dileu costau diangen o gyfraith ansolfedd;
- Cryfhau Cyfraith Cyflogaeth y DU drwy fynd i'r afael ag achosion o gamddefnyddio'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a chymryd camau i fynd i'r afael â'r camddefnydd o gontractau dim oriau;
- Cyflwyno Cod Statudol a Dyfarnwr annibynnol newydd i sicrhau bod tafarnwyr sydd wedi'u rhwymo i gwmni sy'n berchen ar dafarnau yn cael eu trin yn deg;
- Gwneud rhai rheoliadau gofal plant yn fwy hyblyg i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio;
- Atal gweithwyr y sector cyhoeddus sydd ar gyflogau uchel rhag cadw taliadau diswyddo pan fyddant yn dychwelyd i'r un rhan o'r sector cyhoeddus o fewn cyfnod byr o amser.

Mae'r Bil yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn bennaf, gyda rhai darpariaethau yn cynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd.

2.2. *Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol*

Mae'r Bil yn cynnwys nifer o fesurau sy'n ymwneud â chasglu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Prif bwrpas y Bil yw mynd i'r afael ag osgoi a symleiddio'r broses o gasglu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth D a delir gan bobl hunangyflogedig.

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Byddai'r Bil yn symleiddio'r broses o gasglu cyfraniadau yswiriant gwladol pobl hunangyflogedig, sy'n gorfod defnyddio dwy broses wahanol ar gyfer dau ddsbarth gwahanol o gyfraniadau ar hyn o bryd.
- Byddai'r Bil yn symud casglu cyfraniadau yswiriant gwladol Dosbarth 2 i hunanasesu, fel y gellir eu casglu gyda chyfraniadau yswiriant gwladol Dosbarth 4, gyda hyn yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016 (ar gyfer blwyddyn dreth 2015-16 ymlaen).
- Byddai'r Bil yn galluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i roi hysbysiad i drethdalwyr a oedd wedi defnyddio cynlluniau osgoi a oedd wedi methu gerbron y llysoedd mewn achos gan barti arall ("hysbysiad dilynwr").
- Byddai'r Bil yn galluogi'r hysbysiad dilynwr i nodi safbwynt Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi bod y penderfyniad barnwrol hefyd yn penderfynu achosion y trethdalwyr hyn ac y dylent setlo eu hachosion felly.
- Byddai'r Bil yn galluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i ofyn am daliad cyflym o'r cyfraniadau yswiriant gwladol mewn anghydfod lle rhoddwyd hysbysiad dilynwr a bod y trethdalwr wedi penderfynu peidio â setlo'r anghydfod.
- Byddai'r Bil yn galluogi gofyn am daliadau cyflym gan drethdalwyr sy'n rhan o gynlluniau a oedd yn rhaid eu datgelu o dan y rheolau Datgelu Cynlluniau Osgoi Treth (DOTAS) (fel y bo'n gymwys i gyfraniadau yswiriant gwladol), ac o dan y rheol Gwrth-Gamddefnydd Gyffredinol (GAAR) (hefyd fel y bo'n gymwys i gyfraniadau yswiriant gwladol) pan fo'r Panel Cyngori wedi mynegi nad oedd y trefniadau yn rhesymol.
- Byddai'r Bil yn adlewyrchu'r darpariaethau treth yn y Bil Cyllid cyfredol, gan alluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gyflwyno hysbysiaid ymddygiad i hyrwyddwyr cynlluniau osgoi treth ac i fonitro hyrwyddwyr a oedd yn torri hysbysiad ymddygiad.
- Byddai'r Bil yn golygu y byddai hyrwyddwyr a oedd yn cael eu monitro yn destun pwerau gwybodaeth a chosbau newydd, a fyddai hefyd yn berthnasol i gyfryngwyr sy'n parhau i'w cynrychioli ar ôl i'r monitro ddechrau.
- Byddai'r Bil yn golygu y byddai cleientiaid hyrwyddwyr sy'n cael eu monitro yn destun rhwymedigaethau penodol (gyda chosb am ddiffyg cydymffurfio â'r rhain) a therfynau amser estynedig ar gyfer asesu.

- Byddai'r Bil yn cyflwyno Rheol Gwrth-Osgoi wedi'i Thargedu a fyddai'n canolbwyntio ar a sefydlwyd trefniadau i osgoi neu i dalu llai o gyfraniadau yswiriant gwladol.

Mae cyfraniadau yswiriant gwladol a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn berthnasol i'r DU gyfan, felly bydd y Bil yn cynnwys Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (er y bydd angen darpariaeth ar wahân ar gyfer Gogledd Iwerddon yn y Bil). Mae Llywodraeth y DU wedi datgan y cynghorir y gweinyddiaethau datganoledig ar y cynigion maes o law.

2.3. *Bil Seilwaith*

Mae Araith y Frenhines yn datgan mai dyma yw nod y *Bil Seilwaith*:

[...] bolster investment in infrastructure and reform planning law to improve economic competitiveness. The Bill will enhance the United Kingdom's energy independence and security by opening up access to shale and geothermal sites and maximising North Sea resources. Legislation will allow for the creation of an allowable solutions scheme to enable all new homes to be built to a zero carbon standard and will guarantee long-term investment in the road network.¹

Bydd y Bil yn cynnwys nifer o fesurau mewn meysydd eang yn cynnwys trafniadaeth, seilwaith, yr amgylchedd, ynni a chynllunio. Mae llawer o'r meysydd y bydd y Bil yn deddfu arnynt wedi'u datganoli'n llawn neu'n rhannol i Gymru.

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Byddai'r Bil yn troi'r Highways Agency for England yn gwmni dan berchnogaeth Llywodraeth y DU. Byddai hefyd yn creu unedau o fewn Passenger Focus a Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd i gynrychioli buddiannau defnyddwyr ffyrdd a monitro perfformiad y cwmni.
- Byddai'r Bil yn caniatáu Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau i reoli rhywogaethau estron goresgynnol;
- Byddai'r Bil yn symleiddio'r broses o wneud newidiadau i Orchmynion Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd drwy gyflymu newidiadau amherthnasol i Orchymyn Caniatâd Datblygu, a chaniatáu prosesau symlach ar gyfer newidiadau perthnasol;
- Byddai'r Bil hefyd yn caniatáu penodi Awdurdod Archwilio ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd yn syth ar ôl derbyn cais, gyda'r panel i gynnwys dau arolygydd;
- Byddai'r Bil yn caniatáu cyflawni rhai mathau o amodau cynllunio wrth wneud cais os nad yw awdurdod cynllunio lleol yn Lloegr wedi hysbysu'r datblygwr o'i benderfyniad o fewn cyfnod penodol o amser;

¹ GOV.UK, [Araith y Frenhines 2014](#), 4 Mehefin 2014 [gwiriwyd 5 Mehefin 2014]

- Byddai'r Bil yn trosglwyddo cyfrifoldeb statudol am y gofrestr pridiannau tir lleol ac am gyflawni chwiliadau pridiannau tir lleol i'r Gofrestrfa Tir gan gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau digidol ac ehangu pwerau'r Gofrestrfa Tir i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chofrestru sy'n ymwneud â thir ac eiddo arall. Mae rhagor o fanylion ar wefan y Gofrestrfa Tir²;
- Byddai'r Bil yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi hawl i gymunedau brynu cyfran yn eu cynllun trydan adnewyddadwy lleol fel y gallant gael mwy o gyfran o'r manteision ariannol cysylltiedig;
- Yn amodol ar ymgynghoriad, byddai'r Bil yn cefnogi datblygiad nwy ac olew o ynni siâl a geothermaidd drwy egluro a symleiddio'r drefn mynediad tanddaear. Mae Llywodraeth y DU wrthi'n cynnal ymgynghoriad llawn ar y polisi hwn ar hyn o bryd ac mae'n datgan y bydd deddfwriaeth ddilynol yn gwbl ddibynol ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Byddai'r cynigion yn newid hawliau mynediad i ddeiliaid trwydded chwilio am betrolewm i'w gwneud hi'n haws iddynt dyllu a ffracio am nwy siâl ac olew o dan dir pobl eraill³;
- Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno pŵer codi ardollau hefyd er mwyn i'r diwydiant dalu costau ariannu rheoleiddiwr ynni mwy, sydd â gwell adnoddau, yn hytrach na bod y trethdalwr yn gorfod gwneud hynny fel sy'n digwydd ar hyn o bryd;
- Byddai'r Llywodraeth hefyd yn pennu safon perfformiad ynni gofynnol ar gyfer cartrefi newydd drwy'r rheoliadau adeiladu. Bydd y safon Cartrefi Di-garbon yn cael ei phennu ar Lefel 5 y Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy, ond bydd y deddfwriaeth yn galluogi datblygwyr i adeiladu i Lefel 4 cyn belled eu bod yn gwrthbwysu hynny drwy'r cynllun atebion a ganiateir i gyflawni Cod 5;

Mae nodiadau briffio cefndir Llywodraeth y DU yn datgan y byddai'r darpariaethau sy'n ymwneud â ffyrdd, Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd a chaniatadau cynllunio ar gyfer prosiectau lleol **yn berthnasol i Loegr yn unig**. Byddai'r newidiadau i Reoliadau Adeiladu hefyd yn berthnasol i Loegr yn unig. Fodd bynnag, byddai'r darpariaethau sy'n ymwneud â Phrosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd **yn berthnasol yng Nghymru** ar gyfer rhai prosiectau lle nad yw trefniadau caniatâd wedi'u datganoli, fel prosiectau ynni mawr.

Byddai'r ddarpariaeth sy'n ymwneud ag agweddau pridiannau tir lleol y Gofrestrfa Tir a rhywogaethau estron goresgynnol yn berthnasol i **Gymru a Lloegr**.

² Y Gofrestrfa Tir: *Wider Powers and Local Land Charges* [gwiriwyd 5 Mehefin 2014]

³ GOV.UK: *Government proposals to simplify deep underground access for shale gas and geothermal industries* [gwiriwyd 5 Mehefin 2014]

Byddai'r darpariaethau sy'n ymwneud â rheoleiddio ynni a hawl cymunedau i fod yn rhan o brosiectau adnewyddadwy yn berthnasol i **Gymru, Lloegr a'r Alban**.

Maent yn datgan:

Where the Bill deals with devolved matters, we are engaging with the Devolved Administrations as needed.⁴

2.4. Bil Treth Pensiynau

Yn ei Haraith, dywedodd y Frenhines fod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n rhoi'r hawl i bobl sydd wedi cynilo i ddefnyddio eu harian ymddeol fel y dymunant⁵.

Prif bwrpas y *Bil Treth Pensiynau* fydd cyflwyno newidiadau i'r rheolau treth pensiwn a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys yn natganiad y Gyllideb ym mis Mawrth 2014.

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Cyflwyno fframwaith trethi newydd sy'n dileu'r cyfyngiadau ar y ffordd y gall unigolion gael gafael ar gynilion eu pensiynau cyfraniadau diffiniedig, ac sy'n eu galluogi i gael gafael ar eu cynilion yn amodol ar eu cyfradd dreth ymylol;
- Dileu'r cyfyngiadau blaenorol yr oedd y Llywodraeth yn eu gosod ar sut mae pobl yn gallu cael gafael ar eu harian, a rhoi rhyddid a dewis i unigolion gael gafael ar eu pensiynau fel y dymunant;
- Cyflwyno mesurau gwrth-osgoi i atal unigolion rhag defnyddio'r trefniadau newydd at ddibenion osgoi treth;

Mae'r meysydd sy'n cael eu cwmpasu gan y Bil **wedi'u cadw'n gyfan gwbl i'r DU** a byddai'r Bil yn berthnasol **i'r DU gyfan**.

2.5. Bil Pensiynau Preifat

Yn ogystal â'r mesurau ar dreth pensiwn, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno Bil a fydd yn galluogi mwy o arloesedd yn y farchnad pensiynau preifat.

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Gwneud darpariaethau ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd mewn perthynas â gwahanol gategoriâu o gynlluniau pensiwn. Byddai'n sefydlu tri diffiniad cwbl unigryw ar gyfer mathau o gynlluniau yn seiliedig ar raddau'r sicrwydd yn y buddion y byddai'r cynlluniau yn eu cynnig i aelodau.

⁴ GOV.UK, [Queen's Speech 2014: background briefing notes](#), 4 Mehefin 2014 [gwiriwyd 5 Mehefin 2014]

⁵ GOV.UK, [Araith y Frenhines 2014](#), 4 Mehefin 2014 [cyrchwyd 5 Mehefin 2014]

- Diffinio cynlluniau o ran y math o ‘addewid pensiynau’ maent yn eu cynnig i’r unigolyn sy’n cyfrannu. Bydd cynllun yn cael ei gategoreiddio fel cynllun â Buddion Diffiniedig, cynllun Uchelgais Diffiniedig (cynllun pensiwn risg a rennir) neu gynllun Cyfraniad Diffiniedig, yn cyfateb i’r gwahanol fathau o addewid – addewid llawn am incwm ymddeol, addewid ar ran o’r pot neu’r incwm, neu dim addewid o gwbl.
- Galluogi ‘cynlluniau ar y cyd’ sy’n rhannu risg rhwng aelodau ac a allai sicrhau mwy o sefydlogrwydd i ganlyniadau pensiwn. Byddai hefyd yn cynnwys nifer o fesurau sy’n ymwneud â gofynion prisio ac adrodd cynlluniau ar y cyd.
- Deddfu er mwyn cynnig arweiniad i bob unigolyn sydd â phensiwn Cyfraniadau Diffiniedig yn y DU wrth iddynt nesáu at eu hymddeoliad;
- Yn dibynnu ar ganlyniad ymgynghoriad *Freedom and Choice in Pensions* Trysorlys EM, caniatáu i’r Adran Gwaith a Phensiynau gyflwyno deddfwriaeth i wahardd unrhyw drosglwyddiad o gynlluniau buddion diffiniedig y sector preifat neu beidio;
- Caniatáu i Lywodraeth y DU gyflwyno deddfwriaeth i wahardd trosglwyddiadau allan o gynlluniau buddion diffiniedig y sector cyhoeddus fel y cyhoeddwyd yn y Gyllideb.

Byddai’r Bil yn berthnasol i **Gymru, Lloegr a’r Alban**. Mae pensiynau yn fater a gadwyd yn ôl ym Mhrydain ac felly byddai darpariaethau’r Bil yn cynnwys Cymru, Lloegr a’r Alban yn llawn. Mae pensiynau yn fater datganoledig yng Ngogledd Iwerddon. Byddai’r Bil yn cynnwys Gogledd Iwerddon at ddibenion gwella’r ddeddfwriaeth sy’n berthnasol i’r DU gyfan ond fel arall, bydd yn cael ei drosglwyddo ac yn gyfrifoldeb i Gynulliad Gogledd Iwerddon.

2.6. *Bil Taliadau Gofal Plant*

Pwrpas y Bil yw cyflwyno cynllun newydd a fydd yn rhoi cymorth sy’n gyfwerth â gostyngiad cyfradd sylfaenol yn y dreth ar arian a wariwyd ar ofal plant, hyd at uchafswm o £2,000 y flwyddyn i bob plentyn.

Dyma brif elfennau’r Bil:

- Byddai’r Bil yn rhoi hawl i’r rhai sydd â chyfrifoldebau am blentyn fanteisio ar gymorth gan y llywodraeth ar gyfer eu costau gofal plant, ar ffurf gostyngiad effeithiol yn y dreth. Am bob £8 mae rhiant yn ei dalu am ofal plant, bydd Llywodraeth y DU yn cyfrannu £2. Bydd gwerth cymorth Llywodraeth y DU yn cael ei gapio ar uchafswm o £2,000 i bob plentyn y flwyddyn, er na fydd cyfyngiad ar nifer y plant a allai dderbyn y cymorth.

- Byddai'r cynllun yn diddymu system gyfredol Llywodraeth y DU sy'n darparu cymorth ariannol i rieni gyda'u costau gofal plant, sef Gofal Plant â Chymorth Cyflogwr, neu ESC. Mae'r cynllun hwn yn cael ei weithredu'n wirfoddol gan gyflogwyr drwy'r system dreth a chyflogres. Nid yw ar gael i bobl hunangyflogedig neu'r rhai ar isafswm cyflog.
- Bydd Gofal Plant Di-dreth yn cael ei lansio yn hydref 2015 a'i gyflwyno i bob teulu cymwys â phlant o dan 12 oed yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun, yn hytrach na dim ond i blant o dan 5 oed yn y flwyddyn gyntaf. Bydd hyn yn darparu cymorth i tua 1.9 miliwn o deuluoedd sy'n gweithio yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Byddai'r Bil yn gosod yr amodau y byddai'n rhaid i riant eu bodloni er mwyn bod yn gymwys am daliadau atodol Llywodraeth y DU. Yr amodau yw:

- mae'r person yn 16 oed o leiaf;
- mae'r person yn byw gyda'r plentyn fel arfer ac yn gyfrifol amdano (waeth a yw'n rhiant biolegol neu'n rhiant cyfreithiol i'r plentyn);
- mae'r person yn byw neu'n gweithio yn y DU;
- mae'r person, a'i bartner os oes un, yn gwneud gwaith am dâl, naill ai fel gweithiwr cyflogedig neu berson hunangyflogedig, ac mae'n rhaid iddo ennill mwy na'r swm a enillir drwy weithio wyth awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog cenedlaethol (mae yna gyfnodau gras ar gyfer rhai sy'n sefydlu busnes bach);
- nid yw incwm y person, nac incwm ei bartner os oes ganddo un, yn uwch na'r lefel lle byddent yn atebol i dalu treth incwm ar gyfradd ychwanegol (£150,000 y flwyddyn ar hyn o bryd);
- nid yw'r person, na'i bartner os oes ganddo un, yn hawlio Credyd Cynhwysol, nac yn derbyn cymorth arall a ariennir gan arian cyhoeddus ar gyfer eu costau gofal plant.

Byddai'r Bil yn cyflwyno cosbau addas i sicrhau nad yw'r cynllun newydd yn agored i dwyll a chamddefnydd, ynghyd â dulliau priodol o adolygu ac apelio pan fo cosbau o'r fath wedi eu cyflwyno.

Mae'r Bil yn berthnasol i'r **DU gyfan**.

2.7. *Bil Caethwasiaeth Fodern*

Diben y Bil yw darparu dulliau cryfach o orfodi'r gyfraith er mwyn rhoi diwedd ar gaethwasiaeth fodern, sicrhau bod caethfeistri yn derbyn cosbau digon llym a rhoi mwy o ddiogelwch a chefnogaeth i ddiodefswyr.

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Byddai'r Bil yn cydgrynhoi ac yn symleiddio troseddau caethwasiaeth fodern sy'n bodoli ar hyn o bryd i un Ddeddf er mwyn rhoi eglurder a ffocws wrth erlyn caethfeistri a masnachwyr caethweision.
- Byddai'r Bil yn cynyddu'r ddeddfryd hiraf sydd ar gael ar gyfer troseddwyd i garchar am oes, gyda'r rhai sydd ag euogfarn flaenorol am drosedd rhywiol neu dreisgar ddifrifol yn wynebu dedfryd oes awtomatig.
- Byddai'r Bil yn sicrhau bod y sawl sy'n ei euogfarnu am gaethwasiaeth neu fasnachu yn wynebu'r gyfundrefn atafaelu asedau fwyaf llym.
- Byddai'r Bil yn rhoi pwerau newydd i'r llysoedd fel y gallent orfodi'r sawl sy'n ymwneud â chaethwasiaeth a masnachu pobl i dalu iawndal ariannol i'w diodefswyr.
- Byddai'r Bil yn cyflwyno Gorchmynion Atal Caethwasiaeth a Masnachu Pobl i gyfyngu ar weithgarwch unigolion sydd wedi'u heuogfarnu o droseddau caethwasiaeth fodern, os oes risg y gallent achosi niwed.
- Byddai'r Bil yn creu Gorchmynion Risg Caethwasiaeth a Masnachu Pobl, i gyfyngu ar weithgarwch unigolion nad ydynt wedi'u heuogfarnu o droseddau caethwasiaeth fodern, os oes risg y gallent achosi niwed.
- Byddai'r Bil yn creu Comisiynydd Gwrth-gaethwasiaeth newydd i sicrhau bod gorfodi'r gyfraith yn gwneud popeth o fewn ei allu i fynd i'r afael â'r drosedd hon.
- Byddai'r Bil yn creu amddiffyniad statudol ar gyfer diodefswyr caethwasiaeth fodern fel nad yw'r rhai sy'n cael eu gorfodi i droseddu yn cael eu trin fel troseddwyd gan y system cyfiawnder troseddol. Ni fydd yr amddiffyniad yn berthnasol i droseddau rhywiol neu dreisgar difrifol.
- Byddai'r Bil yn ymestyn mesurau arbennig er mwyn sicrhau bod holl ddiodefswyr caethwasiaeth fodern yn cael eu cefnogi drwy'r broses cyfiawnder troseddol.
- Byddai'r Bil yn darparu canllawiau statudol ar adnabod troseddwyd a gwasanaethau troseddwyd.
- Byddai'r Bil yn darparu pŵer galluogi ar gyfer eiriolwyr plant i gefnogi plant sy'n ddiodefswyr masnachu pobl.

- Byddai'r Bil yn creu dyletswydd statudol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol a gweithwyr mewnfudo hysbysu'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol am ddiodefwrwr posibl caethwasiaeth fodern.
- Byddai'r Bil yn cau unrhyw fylchau sy'n atal yr heddlu a Llu'r Ffiniau rhag gallu gweithredu lle'r amheuir bod masnachu mewn pobl neu lafur gorfodol yn digwydd ar fwrdd llongau ar y môr.

Bydd y Bil yn cynnwys **Cymru a Lloegr**.

2.8. *Bil Gweithredu Cymdeithasol, Cyfrifoldeb a Dewrder*

Mae Llywodraeth y DU yn nodi mai diben y Bil yw:

create peace of mind by reassuring those who are acting for the benefit of society, demonstrating a generally responsible approach towards protecting the safety of others or intervening in an emergency, that the courts will consider the context of their actions in the event that something goes wrong and they are sued for negligence or breach of statutory duty.⁶

Prif elfennau'r Bil yw mewn unrhyw honiad o esgeuluso/torri dyletswydd statudol sy'n cael ei gyflwyno lle mae'r llys yn pennu'r camau y dylai diffynnydd fod wedi'u cymryd i gyflawni gofal o safon gymwys, byddai gofyn iddo ystyried:

- A oedd yr esgeuluso/torri dyletswydd wedi digwydd pan oedd y diffynnydd yn gweithredu er budd cymdeithas neu unrhyw un o'i haelodau (cymal 2);
- Wrth gyflawni'r gweithgarwch pan ddigwyddodd yr esgeuluso/torri dyletswydd statudol, a oedd y diffynnydd wedi dangos ymagwedd gyfrifol at amddiffyn diogelwch neu fuddiannau eraill (cymal 3);
- A ddigwyddodd yr achos o esgeuluso/torri dyletswydd honedig pan gymerodd y diffynnydd gamau arwrol drwy ymyrryd mewn argyfwng i gynorthwyo unigolyn mewn perygl heb ystyried ei ddiogelwch ei hun na'u fuddiannau eraill (cymal 4).

Nid yw'r Bil yn dweud wrth y llys i ba gasgliad y dylai ddod ac nid yw'n atal barnu bod person yn esgeulus os yw amgylchiadau'r achos yn gwarantu hynny. Fodd bynnag, byddai'n anfon arwydd cryf i'r llysoedd i sicrhau eu bod yn ystyried, ym mhob achos, gyd-destun ehangach camau'r diffynnydd cyn dod i ddyfarniad ar atebolrwydd.

Byddai'r darpariaethau'n berthnasol yng **Nghymru a Lloegr yn unig**. Mae'r gyfraith sifil wedi'i datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

⁶ GOV.UK, [Queen's Speech 2014: background briefing notes](#), 4 Mehefin 2014 [gwiriwyd 5 Mehefin 2014]

2.9. Bil Cwynion am Wasanaethau

Diben y Bil yw gwella a chryfhau'r system gwyno am Wasanaethau a galluogi i daliadau gael eu gwneud i elusennau a sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r Lluoedd Arfog ledled y DU.

Prif elfen y Bil yw y byddai'r Comisiynydd Cwynion am Wasanaethau presennol yn dod yn Ombwdsmon ac yn cael mwy o bwerau, gan gryfhau'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion. Byddai'r pwerau newydd yn cynnwys:

- Y gallu i ymchwilio a aethpwyd i'r afael â chwyn unigol yn iawn yn ystod y broses fewnol.
- Y pŵer i argymhell camau i'r Cyngor Amddiffyn er mwyn datrys y sefyllfa.
- Y pŵer i wrthdroi, o'r cychwyn, benderfyniad gan y gadwyn orchymyn i eithrio cwyn.

Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i wneud taliadau i elusennau a sefydliadau eraill sy'n cefnogi ein lluoedd arfog ledled y Deyrnas Unedig.

O ran datganoli, mae Llywodraeth y DU yn nodi "***Defence is a reserved matter (UK wide)***". *Where the bill deals with devolved matters we will engage with the Devolved Administrations as needed*".⁷

2.10. Bil Troseddau Difrifol

Diben y Bil yw adeiladu ar y gyfraith droseddol a sifil bresennol gan ymlid troseddwy'r difrifol a chyfundrefnol, tarfu ar eu gwaith a dod â nhw o flaen eu gwell, amddiffyn rhag bygythiad terfysgaeth ac amddiffyn menywod a phlant sy'n agored i niwed.

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Byddai'r Bil yn gwella'r gallu i adfer asedau troseddol drwy ddiwygio *Deddf Enillion Troseddau 2002*.
- Byddai'r Bil yn ymestyn cwrpas Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol a gwaharddebau yn erbyn gangiau.
- Byddai'r Bil yn creu trosedd newydd gan dargedu pobl sy'n cymryd rhan yn fwriadol mewn grŵp troseddu cyfundrefnol.
- Byddai'r Bil yn creu trosedd newydd o feddu ar lawlyfrau paedoffilic.
- Byddai'r Bil yn diwygio *Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990* i sicrhau bod dedfrydau am ymosodiadau ar systemau cyfrifiadurol yn adlewyrchu'r difrod y maent yn ei achosi'n llawn.

⁷ GOV.UK, [Queen's Speech 2014: background briefing notes](#), 4 Mehefin 2014 [gwiriwyd 5 Mehefin 2014]

- Byddai'r Bil yn sefydlu pwerau newydd i atafael, cadw a dinistrio sylweddau cemegol yr amheuir eu bod yn cael eu defnyddio fel cyfryngau torri ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon.
- Byddai'r Bil yn egluro *Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933* i nodi'n glir bod creulondeb sy'n debygol o achosi niwed seicolegol i blentyn yn drosedd. Mae hyn yn cario drosodd cynigion a wnaed mewn [Bil Aelod Preifat](#) a gyflwynwyd gan Mark Williams AS.
- Byddai'r Bil yn ymestyn cyrhaeddiad alldiriogaethol y troseddau yn *Neddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003* fel eu bod yn berthnasol i breswylwyr arferol a pharhaol y DU.
- Byddai'r Bil yn galluogi i bobl yr amheuir eu bod wedi troseddu dramor o dan adrannau 5 (gweithredoedd paratoadol ar gyfer terfysgaeth) neu 6 (hyfforddi ar gyfer terfysgaeth) o *Ddeddf Terfysgaeth 2006* i gael eu herlyn yn y DU.

Mae holl ddarpariaethau'r Bil yn berthnasol i Gymru a Lloegr, gyda darpariaethau penodol yn cynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Mewn perthynas â'r Alban, mae'r darpariaethau'n cynnwys cymysgedd o faterion a gedwir a materion datganoledig. Mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, mae'r darpariaethau'n ymwneud â chymysgedd o faterion a eithrir, a gedwir a materion datganoledig.

2.11. Bil Galw Aelodau Seneddol yn Ôl

Nod y Bil yw galluogi pleidleiswyr i sbarduno isetholiad os gwelir bod AS wedi camymddwyn yn ddifrifol a bod 10 y cant o'i etholwyr wedi llofnodi deiseb yn galw am isetholiad. Cyhoeddwyd [Bil drafft](#) yn 2011.

Byddai'r Bil yn sefydlu mecanwaith galw yn ôl a fyddai'n rhoi'r cyfle i etholwyr lofnodi deiseb i sbarduno isetholiad:

- Os yw AS yn cael ei euogfarnu yn y DU o drosedd ac yn derbyn dedfryd o 12 mis neu lai o garchar (mae AS yn cael ei ddiarddel yn awtomatig am garchar o fwy na 12 mis);
- Os yw Tŷ'r Cyffredin yn penderfynu y dylai AC wynebu deiseb galw yn ôl.

Byddai deiseb galw yn ôl yn llwyddiannus pe bai'n cael ei llofnodi gan o leiaf 10 y cant o'r pleidleiswyr cofrestredig yn yr etholaeth dros gyfnod o wyth wythnos.

Byddai'r mecanwaith galw yn ôl yn ychwanegu at gyfres Tŷ'r Cyffredin ei hun o fesurau disgyblu ac yn rhoi llais i etholwyr ynglŷn ag ymddygiad eu AS.

Mae'r cynigion ar gyfer galw aelodau Seneddol yn ôl, ac ni fyddent yn berthnasol i Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Mae'r Bil yn cynnwys y **DU gyfan**.

3. Biliau a gariwyd drosodd o Sesiwn 2013-14⁸

Mae Tŷ'r Cyffredin wedi cytuno i gario drosodd y biliau canlynol o Sesiwn 2013-14.

3.1. *Bil Cymru*

Roedd *Bil Cymru* yn destun cynnig cario drosodd ar 31 Mawrth 2014, a chytunwyd arno heb raniad.

Cyhoeddwyd Bil drafft Cymru ym mis Rhagfyr 2013.

Bu'r Pwyllgor Materion Cymreig yn craffu ar y bil drafft. Cyflwynwyd ymateb Llywodraeth y DU i'r Pwyllgor Materion Cymreig i'r Llyfrgell ar 20 Mawrth 2014, drannoeth cyflwyno Bil Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin, ac mae wedi'i gyhoeddi gan y Pwyllgor Materion Cymreig.

3.2. *Bil Hawliau Defnyddwyr*

Roedd y *Bil Hawliau Defnyddwyr* yn destun cynnig cario drosodd ar 28 Ionawr 2014, a chytunwyd arno heb raniad.

Cyhoeddwyd y Bil Hawliau Defnyddwyr drafft ym mis Mehefin 2013.

Bu Pwyllgor Busnes, Arloesi a Sgiliau Tŷ'r Cyffredin yn craffu ar y bil drafft. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar 23 Rhagfyr 2013 ac ymateb Llywodraeth y DU ym mis Ionawr 2014.

Mae'r Bil yn cynnwys **Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon**.

3.3. *Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd*

Roedd y *Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd* yn destun cynnig cario drosodd ar 24 Chwefror 2014.

Mewn datganiad ar adolygiad Ellison a fu'n archwilio honiadau o lygredigaeth mewn perthynas â'r ymchwiliad cychwynnol, diffygiol iawn, i lofruddiaeth Stephen Lawrence, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

The current law on police corruption relies on the outdated common-law offence of misconduct in public office. It is untenable that we should be relying on such a legal basis to deal with serious issues of corruption in modern policing, so I shall table amendments to the Criminal Justice and Courts Bill to introduce a new offence of police corruption, supplementing the existing offence of misconduct in public office and focusing clearly on those who hold police powers.⁹

Mae'r rhan fwyaf o'r Bil yn cynnwys **Cymru a Lloegr**, ond mae rhai darpariaethau'n berthnasol i'r Alban a Gogledd Iwerddon.

⁸ [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. The Queen's Speech 2014. Standard Note SV/PC/6870. 23 Mai 2014 \[gwiriwyd 5 Mehefin 2014\]](#)

⁹ [Dadleuon Tŷ'r Cyffredin. 6 Mawrth 2014 c1065](#)

3.4. *Bil Dadreoleiddio*

Roedd y *Bil Dadreoleiddio* yn destun cynnig cario drosodd ar 3 Chwefror 2014, a chytunwyd arno heb raniad.

Cyhoeddwyd y *Bil Dadreoleiddio* drafft ym mis Gorffennaf 2013. Bu cydbwyllgor yn craffu ar y bil. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar 19 Rhagfyr 2013 ac ymateb Llywodraeth y DU ym mis Ionawr 2014.

Mae Cymal 79 yn nodi cwmpas tiriogaethol y Bil. Mae'r Bil yn gwneud llawer iawn o ddiddymiadau, dirymiadau a gwelliannau eraill i'r ddeddfwriaeth. Mae Cymal 79(1) yn darparu, oni nodir yn wahanol, bod gan unrhyw ddiddymiad, ddirymiad neu welliant arall a wneir gan y Bil yr un cwmpas â'r ddeddfwriaeth wreiddiol.¹⁰

3.5. *Bil Cyllid (Rhif 2)*

Roedd y *Bil Cyllid (Rhif 2)* yn destun cynnig cario drosodd ar 1 Ebrill, a chytunwyd arno gyda rhaniad, o 273 pleidlais i 223. Cyflwynir *Biliau Cyllid* ar ôl y Gyllideb.

Mae'r Bil yn cynnwys y Deyrnas Unedig.

3.6. *Bil Rheilffordd Cyflym (Llundain - Gorllewin Canolbarth Lloegr)*

Cyflwynwyd y *Bil Rheilffordd Cyflym (Llundain - Gorllewin Canolbarth Lloegr)* ar 25 Tachwedd 2013 ac roedd yn destun cynnig cario drosodd ar 29 Ebrill 2014.

Mae'r ddarpariaeth a wneir gan y Bil ar gyfer prynu tir ac awdurdodi gwaith yn lleol o ran natur. Bydd y rheilffyrdd cyflym newydd sy'n rhan o 'Phase One of High Speed 2' wedi'u lleoli'n gyfan gwbl yn Lloegr.

Fodd bynnag, fel gyda *Crossrail Act 2008*, *Channel Tunnel Rail Link Act 1996* a Biliau hybrid eraill, nid yw'r Bil yn cyfyngu'n llwyr ar ei raddfa diriogaethol. Mae hyn yn golygu bod y **Bil yn cynnwys y Deyrnas Unedig**.¹¹

¹⁰ [Deregulation Bill: Explanatory Notes](#) [gwiriwyd 5 Mehefin 2014]

¹¹ [High Speed Rail \(London-West Midlands\) Bill: Explanatory Notes](#) [gwiriwyd 5 Mehefin 2014]

4. Biliau Drafft

Mae Araith y Frenhines 2014 yn cyfeirio at dri Bil drafft.

4.1. *Bil Llywodraethu Parciau Cenedlaethol (Lloegr) a'r Broads Drafft*

Diben y Bil drafft yw caniatáu ehangu cyfansoddiad awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdod y Broads yn Lloegr yn y dyfodol, drwy orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Prif ddiben y Bil drafft fyddai darparu ar gyfer cynnal etholiadau lleol i'r awdurdodau.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn berthnasol i **Loegr yn unig** ac nid oes goblygiadau datganoli. Yn yr Alban, cynhelir etholiadau uniongyrchol ar gyfer cyfran o aelodau Awdurdod y Parciau Cenedlaethol gydag eraill yn cael eu penodi gan Lywodraeth yr Alban a'r awdurdodau lleol cyfansoddol. Nid oes unrhyw Barciau Cenedlaethol yng Ngogledd Iwerddon.

4.2. *Bil Deddf Terfysg (Difrod) Drafft*

Byddai'r Bil yn diwygio'r *Ddeddf Terfysg (Difrod)*, gan wella a moderneiddio'r ffordd y telir iawndal i unigolion a busnesau sy'n profi colledion neu ddifrod i eiddo yn ystod terfysgoedd.

Dyma brif bwyntiau'r Bil:

- Byddai'r Bil yn darparu yswiriant cyfyngedig ar gyfer cerbydau, pan fyddai gan y perchennog yswiriant trydydd parti yn unig.
- Byddai'r Bil yn newid iawndal o fod ar sail digollediad (eitemau newydd yn cymryd lle hen eitemau) i fod ar sail cyfnewid gwerth (eitemau newydd cyfwerth yn lle'r hen rai).
- Byddai'r Bil yn rhoi trothwy ar daliadau i fusnesau mawr iawn a'u hyswirwyr.
- Byddai'r Bil yn sefydlu Canolfan Hawliadau Terfysgoedd i ymdrin â hawliadau, gan sefydlu un ffordd o ymdrin â hawliadau ar ôl unrhyw derfysg yn y dyfodol.
- Byddai'r Bil yn ymestyn y cyfnod gwneud cais i roi'r amser sydd ei angen ar hawlwr i gasglu tystiolaeth o ddifrod a therfysg.

Mae'r *Ddeddf Terfysg (Difrod)* drafft yn cwmpasu difrod yng **Nghymru a Lloegr yn unig**. Mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon ddeddfwriaeth ar wahân ar ddifrod a achosir yn ystod terfysgoedd.

4.3. Bil Amddiffyn Elusennau Drafft

Diben y Bil drafft yw amddiffyn elusennau'n well yng Nghymru a Lloegr rhag unrhyw gam-fanteisio arnynt a rhoi'r grym i'r Comisiwn Elusennau ymdrin â cham-fanteisio yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Byddai'r bil drafft yn cynnwys **Cymru a Lloegr**. Mae rheoleiddio a chyfraith elusennau yn fater datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.